# Adroddiad Blynyddol Panel Rhiant Corfforaethol

# 2024/25



## 1. Cyflwyniad a chyd-destun: Rôl y Panel Rhiant Corfforaethol

1.1. Mae gan Gyngor Gwynedd a'i bartneriaid gyfrifoldebau statudol i weithredu fel rhieni corfforaethol ar gyfer plant mewn gofal.

1.2. Daw plant a phobl ifanc i ofal y Cyngor o dan amgylchiadau anodd iawn, ond mae'r Cyngor yr un mor uchelgeisiol ar gyfer y plant yma ag y byddai unrhyw un ar gyfer ei blentyn ei hun. Y nod yw eu bod yn byw bywyd mor hapus â phosib. Mae gan unrhyw blentyn sydd yn cael ei ofalu amdano gan y Cyngor yr hawl i ddisgwyl yr un peth gan ei riant corfforaethol ag a fyddai unrhyw blentyn arall yn ei ddisgwyl gan riant da.

1.3. Golygai hyn y bydd y Cyngor yn:

- Deall eu hanghenion, eu doniau, a'u breuddwydion, a chefnogi eu diddordebau;
- Dal uchelgais uchel am eu dyfodol ac yn disgwyl y gorau ganddynt ac ar eu cyfer;
- Dathlu eu llwyddiannau a'u cefnogi trwy heriau;
- Gwrando ar eu barn a'u hymgorffori mewn gwasanaethau a pholisïau;
- Sicrhau eu bod yn rhan o gynllunio eu bywydau a'u cynnwys mewn penderfyniadau;
- Cydnabod, cefnogi a pharchu eu hunaniaeth ymhob ffordd;
- Hyrwyddo a chefnogi cyflawniad addysgol i orau eu gallu gan sicrhau mynediad at addysg o safon uchel a chyfleoedd dysgu eang;
- Cefnogi eu hiechyd a lles emosiynol;
- Darparu cartref diogel a sefydlog lle bo ymdeimlad o berthyn;
- Cefnogi eu siwrne o fod yn blant i oedolion a'u paratoi i fod yn drigolion cyfrifol sydd yn cyfrannu i'r gymdeithas yn ei chyfanrwydd.

1.4. Er mwyn cynnal y swyddogaeth hon, mae'r Cyngor yn cynnull Panel Rhiant Corfforaethol. Mae gan y Panel gyfrifoldeb penodol ac uniongyrchol i sicrhau bod gwasanaethau aml-asiantaeth priodol ac addas ar gael, a bod y rhain o ansawdd uchel, yn hygyrch ac yn cwrdd â'u hanghenion. Cydweithir gyda phartneriaid i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bob plentyn sydd mewn gofal.

1.5. Mae Aelodaeth y Panel Rhiant Corfforaethol yn cynnwys:

- Prif Weithredwr (Cadeirydd)
- Aelod Cabinet yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd
- Aelod Cabinet Addysg
- Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaeth Cymdeithasol (arddelir rôl Cyfarwyddwr Arweiniol Plant a Phobl Ifanc hefyd)
- Pennaeth yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd
- Pennaeth Addysg
- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr


## 2. Data: Trosolwg o'r flwyddyn a fu

2.1. Cyflwynir yr wybodaeth isod ar sail ffigyrau diwedd chwarter pedwar (Mawrth 2025). Mae'n cynnwys ffigyrau cymharol o'r pum mlynedd flaenorol:

| Plant mewn gofal ar 31 Mawrth | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer o blant mewn gofal ar ddiwedd y flwyddyn | 291 | 281 | 273 | 281 | 281 | 280 |
| Nifer o blant wedi dod i ofal yn ystod y flwyddyn | 82 | 46 | 46 | 59 | 65 | 53 |
| Nifer o blant wedi gadael gofal yn ystod y flwyddyn | 44 | 56 | 54 | 51 | 65 | 54 |
| Nifer o blant sy'n Geiswyr Lloches ar eu Pen eu Hunain | 1 | 0 | 3 | 15 | 14 | 4 |

2.2. Ar 31 Mawrth 2025, roedd **280** o blant mewn gofal, sef un yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith bod rhai plant wedi gadael gofal yn ystod y flwyddyn tra bod plant eraill wedi dod i mewn i ofal, felly arhosodd y nifer cyffredinol yn weddol gyson er gwaethaf newidiadau o fewn y grŵp.

2.3. <u>Math o leoliad</u>




2.3.1. Fel y dengys y graff uchod, o'r **280** plentyn oedd yn ein gofal ar ddiwedd Mawrth 2025, roedd **186** (66%) mewn lleoliadau maeth, **21** (8%) mewn lleoliadau preswyl a **54** (19%) wedi eu lleoli gyda'u rhieni. Roedd **1** plentyn mewn lleoliadau mabwysiedig ar ddiwedd y chwarter gyda **15** person ifanc yn byw yn annibynnol gyda chefnogaeth.

2.3.2. Yn anffodus yn ystod 2024/25 bu'n rhaid hefyd defnyddio trefniadau lleoliadau heb gofrestriad (OWR) ar gyfer **3** o bobl ifanc (o'i gymharu a **5** y flwyddyn diwethaf). Yn hanesyddol mae'r defnydd o drefniadau o'r fath wedi bod yn brin iawn ac adlewyrcha'r cynnydd yma y sefyllfa yn genedlaethol, oherwydd diffyg lleoliadau cofrestredig. Mae hyn yn arbennig wir am bobl ifanc yn eu harddegau sydd ag anghenion dwys a chymhleth neu wedi profi toriad mewn lleoliad oherwydd ymddygiad heriol. Mae'r tîm yn gweithio'n galed er mwyn ceisio sicrhau lleoliadau cofrestredig i'r pobl ifanc, a rhagwelir y bydd y nifer yn gostwng yn bellach yn 2025/26.

2.4. <u>Lleoliad daearyddol</u>

2.4.1. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd **208** (74%) o blant mewn gofal wedi eu lleoli yng Ngwynedd. Mae hyn yn gynnydd o **4%** ers 2023/24. Roedd **42** (15%) o blant wedi ei leoli yng Ngogledd Cymru, gyda **26** (9%) o'r plant yma wedi eu lleoli yn y siroedd agosaf (Môn a Chonwy).

2.4.2. I rhai plant mae dewis i'r Cyngor rhwng lleoli gyda gofalwyr maeth cyffredinol o fewn y sir neu gyda theulu estynedig. Gall y teulu estynedig fod yn byw tu allan i ffiniau Gwynedd ac felly plentyn felly yw cael ei leoli'n all sirol, ond bod y lleoliad yn parhau o fewn ei deulu estynedig. Mae cyfanswm o **21** (7%) o blant wedi eu lleoli y tu allan i Gymru, gyda **3** o'r rhain mewn lleoliadau preswyl a'r gweddill naill ai wedi eu lleoli gyda rhieni neu berthnasau.




** Nid yw'r lleoliadau yma yn cael ei ddatgelu gan ei fod yn wybodaeth sensitif*

2.5. Plant wedi dod i ofal yn ystod y flwyddyn

2.5.1. Yn ystod y flwyddyn gyfan daeth **53 o blant mewn i ofal**, o gymharu â **65** yn ystod 2023/24.

2.5.2. Mae'r tabl isod yn dangos oedrannau'r plant ddaeth i ofal yn ystod 2024/25. Roedd **62%** o'r plant a ddaeth i ofal yn ystod y flwyddyn o dan 5 oed, gyda'r mwyafrif ohonynt wedi bod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant fel rhan o brosesau diogelu cyn dod i ofal. Mae hyn yn cynnydd sylweddol o gymharu a 2023/24, lle'r oedd **37%** o plant yn dod i ofal o dan 5 oed.

| O dan 1 oed | 1 – 5 oed | 6 – 10 oed | 11 – 15 oed | 16+ |
|---|---|---|---|---|
| 19 | 14 | 7 | 10 | 3 |

2.5.3. Nid yw'r cynnydd yn y niferoedd o dan 5 oed sy'n dod i ofal yn unigryw i Wynedd, a gwelir yr un patrwm ar draws y Gogledd a Chymru gyfan. Rhai o brif resymau lle mae plant o dan 5 oed yn dod i ofal ydi pryderon am y gallu i rieni ddiogelu, niweidio bwriadol. camddefnyddio alcohol a chyffuriau, trais yn y cartref a phroblemau iechyd meddwl, a mamau sydd â phlant blaenorol wedi mynd i ofal yn beichiogi a heb wneud y newid angenrheidiol yn eu bywydau i fedru gofalu yn ddiogel am y plentyn.

2.6. Ceiswyr Lloches ar eu Pen eu Hunain (Unaccompanied Asylum Seeking Children)

2.6.1. Noder fod y Cyngor wedi derbyn **30** Ceisiwr Lloches drwy Gynllun Trosglwyddo'r Swyddfa Gartref ers mis Rhagfyr 2022. Daw'r mwyafrif o Afghanistan er bod niferoedd bychan wedi cyrraedd o nifer o wledydd eraill megis Iraq, Twrci, Fietnam ac Yr Aifft. Roedd **4** ohonynt yn blant mewn gofal ar 31 Mawrth 2025 (gyda **26** ohonynt bellach wedi gadael gofal).

2.6.2. Mae ceiswyr lloches yn cynrychioli **2%** o'r plant a ddaeth i ofal eleni, o'i gymharu â **18%** yn 2023/24. Ychydig iawn o wybodaeth gefndirol sydd ar gael yn yr achosion hyn ac y brif her yw darganfod lleoliadau sefydlog ac sy'n addas o safbwynt eu hoedran, anghenion ieithyddol a diwylliannol ac yn aml y trawma difrifol maent wedi ei brofi.

2.6.3. Yn mis Mai 2024, cafodd y Panel gyflwyniad arbennig ar Geiswyr Lloches ar eu Pen eu Hunain gan y Tîm Ôl 16. Amlygwyd rhai heriau wyneba'r tîm gan gynnwys anghenion cefnogaeth amrywiol gyda'r pobl ifanc wedi profi trawma sylweddol, gweithio efo carfan sydd â risg uchel o ecsploetiaeth, y trefniadau cyfieithu yn ogystal a'r her o ganfod lleoliadau addas. Mae'r Cyngor eisoes wedi sicrhau fod y Tîm Ôl-16 yn derbyn adnodd ychwanegol, ac fe grëwyd dwy swydd newydd dros dro yn ystod 2023/24.

***“Hoffwn fynegi fy niolch am y gefnogaeth anhygoel a roddwyd i mi. Mae'r ymroddiad i'm lles, addysg ac iechyd wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol yn fy mywyd...***


***Wrth dyfu i fyny yn Afghanistan, gwelais ac wynebais lawer o heriau, ond mae'r rhain wedi rhoi nerth i mi ac wedi meithrin gobaith ynof. Nid yw symud i wlad newydd byth yn hawdd, ond mae Cymru wedi rhoi llawer o gyfleoedd i mi dyfu fel unigolyn a cyfle am ddyfodol gwell.***

***Pan gyrhaeddais, un o’r heriau cyntaf oedd addasu i ddiwylliant a ffordd newydd o fyw. Roedd y rhwystr iaith yn sylweddol, ond roeddwn i’n benderfynol o ddysgu a chymryd rhan. Mae pobl wedi bod yn groesawgar iawn ac yn gefnogol. Mae eu caredigrwydd wedi dangos i mi, er gwaethaf ein cefndiroedd gwahanol, bod gwerthoedd cyffredin fel tosturi’n ein uno bob amser.”***

*Adborth gan un geisiwr Lloches ar eu Pen eu Hunain*

2.7. Plant wedi gadael gofal yn ystod y flwyddyn

2.7.1. Yn ystod y flwyddyn gyfan fe aeth **54** o blant allan o ofal. Bu i **18** person ifanc droi’n ddeunaw oed, gyda **7** ohonynt yn aros gyda’u gofalwyr maeth o dan drefniant ‘*Pan Fyddai’n Barod’* a **0** yn trosglwyddo i wasanaethau Oedolion gydag anghenion cymhleth. Dychwelodd **22** plentyn yn ôl i ofal ei rhieni ar ôl cyfnodau byr mewn gofal. Diddymwyd gorchymyn gofal yn gyfan gwbl ar **12** plentyn. Gwnaethpwyd Gorchymyn Gwarcheidwaeth Arbennig neu Orchymyn Goruchwylio **2** plentyn (sy’n golygu nad ydynt bellach yn blant mewn gofal). Gwnaethpwyd Gorchymyn Mabwysiadu ar **4** blentyn yn ystod y cyfnod.



2.8. <u>Cefnogaeth i atal plant ddod i ofal</u>

2.8.1. Cynigia’r Cyngor wahanol haenau o gefnogaeth i deuluoedd - yn amrywio o’r Tîm o Amgylch y Teulu sy’n ymyrryd yn gynnar pan fo problemau’n dod i’r amlwg i gefnogaeth fwy dwys gan y Gwasanaethau Trobwynt i blant sydd ar fin dod i ofal. Gweithia’r timau yn agos gyda theuluoedd, gan ddeall eu heriau a chydweithio â rhieni i wella eu sefyllfa. Mae’r dull hwn yn helpu i atal lleoli plant mewn gofal yn ddiangen.

2.8.2. Rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025 gweithiodd y Gwasanaethau Trobwynt gyda **208** o blant**.** Dechreuodd y tîm weithio gyda **159** o achosion newydd yn ystod y cyfnod. Yn ystod y flwyddyn, daeth ymyrraeth y tîm i ben gyda **163** o blant. Roedd **104** o’r rhain yn byw gartref gyda’u rhieni heb orchymyn gofal ar gychwyn yr ymyrraeth. Ar ddiwedd yr ymyrraeth roedd **101** yn parhau i fyw gartref ac mae **10** wedi dychwelyd adref o ofal.

## 3. Gweithrediad y Panel dros y flwyddyn

3.1. Cartref sefydlog a diogel: Maethu a Mabwysiadu

3.1.1. Mae lleoliadau sefydlog yn hanfodol i greu ymdeimlad o berthyn a diogelwch ym mywyd pob plentyn. Pan mae angen lleoli plentyn mewn gofal, dymunir eu cadw yn agos at eu teulu a'u bro. Felly, canolbwyntir ar ddod o hyd i ffyrdd o letya a gofalu am blant a phobl ifanc yn nes at adref, fel y gallent barhau i fod yn rhan o'u cymuned a chynnal eu rhwydweithiau cymorth.

3.1.2. Darperir cefnogaeth amhrisiadwy gan deuluoedd maeth lleol. Gwelir enghreifftiau personol sydd yn tystio i'r effaith ac yn dangos gwir werth a dylanwad hirdymor maethu ar fywydau plant a phobl ifanc.

> ***"Roedd fy nheulu maeth yn golygu popeth i mi, ac maent yn dal i fod...Roedd yna ymdeimlad o berthyn a'u bod wir fy eisiau, doeddwn i erioed wedi profi hynny o'r blaen. Dewisodd fy ngofalwyr maeth fy nghroesawu i'w cartref ac i mi fod yn rhan o'u teulu.***
>
> ***Am y tro cyntaf erioed, roeddwn yn teimlo yn rhan o ddeinameg y teulu, roedd hyn yn rhywbeth yr oeddwn wedi bod ei eisiau ar hyd fy mywyd. Cael rhieni oedd yn fy nhrin fel eu merch. Cael perthnasau gyda brodyr a chwiorydd am y tro cyntaf – er na fu hi fawr o dro nes i ni ddechrau ffraeo fel brodyr a chwiorydd!***
>
> ***Ond roedd yn teimlo'n normal ac yn naturiol. 'Roeddwn i wir yn hapus. Yn hapusach nag yr oeddwn erioed wedi bod o'r blaen."***
>
> *Merch ifanc mewn gofal maeth lleol*

3.1.3. Ymfalchïa'r Cyngor yn ei allu i gynnig gofal maeth o'r safon uchaf ac mae'n buddsoddi mewn recriwtio, asesu a chofrestru gofalwyr maeth y sir. Ar ddiwedd Mawrth 2025 roedd **72** cartrefi maeth cyffredinol wedi'u cofrestru gyda Gwasanaeth Maethu Cymru Gwynedd. Mae hyn o'i gymharu â **61** yn 2024, ac felly gwelir gynnydd cadarnhaol yn y niferoedd.

3.1.4. Darperir cefnogaeth ymarferol a phroffesiynol i'r holl deuluoedd maeth. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd **9** (3%) o'r plant mewn gofal yng Ngwynedd wedi profi 3 neu fwy o symudiadau yn eu lleoliad. Mae hyn yn is na'r ganran ar gyfer 2023/24, sef **7%**.

3.1.5. Yn ystod 2024/25 datblygodd y Panel **becyn o fuddiannau** i ofalwyr maeth Gwynedd. Mae'r buddiannau yn cynnwys:

- Gostyngiad o 50% ( 25% i Ofalwr Maeth egwyl fer) ym miliau Treth Cyngor gofalwyr maeth sy’n gofrestredig i’r Cyngor.
- Tocyn parcio blynyddol am ddim.
- Defnydd diderfyn o ganolfannau hamdden.

3.1.6. Yn ogystal, mae’r cynnig yn cynnwys mabwysiadu **Polisi Maethu Cyfeillgar** ar gyfer gofalwyr maeth sy’n gyflogedig gan y Cyngor. Mae’r polisi’n cynnig mwy o hyblygrwydd yn eu trefniadau gwaith i’w helpu i ddiwallu anghenion y plant sydd yn eu gofal, gan gynnwys hyd at 5 diwrnod ychwanegol o wyliau i’w galluogi i ymgymryd â’u cyfrifoldebau maethu.

3.1.7. Bwriad y pecyn yw annog a denu mwy i fod yn Ofalwyr Maeth i Gwynedd yn ogystal a dangos gwerthfawrogiad o’r gofalwyr profiadol ac ymroddedig sydd eisoes yn gofrestredig i’r Cyngor. Drwy wneud maethu yn fwy dichonadwy yn ariannol i rai preswylwyr, a gall hyd yn oed ddenu’r rheiny sydd ar hyn o bryd yn maethu gydag Asiantaeth Faethu Annibynnol i drosglwyddo i Wynedd.

3.1.8. Bwriedir gyflwyno’r pecyn yn ffurfiol i’r Cabinet yn mis Ebrill 2025, cyn bwrw ymlaen i weithredu’r newidiadau a hyrwyddo’r cynnig yn ystod 2025/26.

3.2. <u>Cartref sefydlog a diogel: Prosiect Cartrefi Grŵp Bychain</u>

3.2.1. Weithiau mae amgylchiadau unigol yn golygu fod angen i leoli plentyn mewn lleoliad preswyl. Mae hyn yn codi o gyfuniad o ffactorau a all gynnwys anghenion cymhleth, ymddygiad heriol, lleoliadau maeth aflwyddiannus yn flaenorol neu angen arbenigol sy'n golygu na fyddai lleoliad mewn amgylchedd teuluol yn addas.

3.2.2. Mae datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal yn ganolog i weledigaeth Llywodraeth Cymru o greu model dielw ar gyfer gwasanaethau plant, ac yn flaenoriaeth amlwg i Gynghorwyr Gwynedd, sy’n dymuno gweld pobl ifanc yn cael eu cefnogi a’u cartrefu yn lleol, yn hytrach na chael eu lleoli’n bell o’r sir.

3.2.3. Mae Cartrefi Grŵp Bach yn brosiect yng Nghynllun y Cyngor 2023-28 sy’n ceisio mynd i’r afael a’r angen hynny. Y bwriad yw datblygu cartrefi preswyl cofrestredig fydd yn cael eu rhedeg gan y Cyngor ar gyfer grwpiau bychan o hyd at ddau o blant fydd yn caniatáu iddynt gael gofal yng Ngwynedd, mynychu ysgolion lleol, a chymryd rhan gyflawn ym mywyd eu cymunedau.

3.2.4. Dros y flwyddyn ddiwethaf, gwnaed cynnydd sylweddol gyda’r Cynllun Cartrefi Grŵp Bychain. Prynwyd tri eiddo newydd yn ystod 2024/25, ac agorwyd y cartref cyntaf ym Morfa

Bychan, gyda dau blentyn bellach yn byw yno. Penodwyd rheolwraig a thîm staff cyflawn i'r tŷ hwn, a gobeithir gwblhau'r broses gofrestru swyddogol gyda Arolygaeth Gofal Cymru yn fuan yn 2025/26.

3.2.5. Yn ogystal, prynwyd ail dŷ yn Ninorwig ac mae'r gwaith angenrheidiol yn mynd rhagddo i'w baratoi ar gyfer cofrestru. Prynwyd hefyd drydydd tŷ yn Edern, a disgwylir i blant symud i mewn dros y misoedd nesaf.

3.2.6. Yn ystod y flwyddyn nesaf, mae camau pellach ar y gweill i archwilio cyfleoedd yn Meirionnydd, gan gynnwys opsiwn i ddatblygu ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor.

3.3. Cefnogi iechyd a lles

3.3.1. **Asesiadau Iechyd**

3.3.1.1. Nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 bod yn rhaid i'r holl blant sy'n derbyn gofal gael asesiad iechyd. Pan fydd plentyn yn dod "mewn i ofal", dylai paediatregydd cymunedol gynnal asesiad iechyd cychwynnol (IHA) o fewn 28 diwrnod.

3.3.1.2. Roedd **43** o Asesiadau Iechyd Cychwynnol i fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn 2024/25 hyd at 1af Ebrill 2025, gyda **63%** wedi'u cynnal o fewn yr amserlen ofynnol. O'r rhai a oedd yn hwyr, roedd y mwyafrif naill ai oherwydd rhannu caniatâd a gwaith papur yn hwyr yn cyrraedd y Bwrdd Iechyd, neu oherwydd trosglwyddo lleoliad a arweiniodd at geisiadau'n gorfod mynd i ardaloedd y tu allan i Wynedd. Mae'r ffigurau hyn wedi gwella'n sylweddol o'i gymharu â'r hyn a adroddwyd y flwyddyn flaenorol (2023/24).

| Blwyddyn | Nifer Asesiadau i'w cynnal | Nifer Asesiadau a gwblhawyd | Canran yr Asesiadau ar amser | Waiting for data |
|---|---|---|---|---|
| 2024/25 | 43 | 41 | 63% | 2 |
| 2023/24 | 55 | 52 | 18% | 3 |

3.3.1.3. Disgwylir i blentyn mewn gofal hefyd dderbyn Asesiad Adolygu Iechyd yn rheolaidd (pob 6 mis i blentyn o dan 5 oed a phob blwyddyn i blentyn dros 5). Roedd 294 o Asesiadau Adolygu Iechyd yn ddyledus yn ystod y flwyddyn, gyda **64%** wedi'u cynnal o fewn yr amserlen ofynnol. Roedd **36%** yn hwyr oherwydd problemau fel salwch gofalwyr, canslo apwyntiadau, teuluoedd ar wyliau a newidiadau lleoliad anochel.

3.3.1.4. Bwriad y Panel oedd edrych yn fanylach ar ddata'r asesiadau iechyd gan graffu hyd a chwmpas y cyfnod aros yn ystod 2024/25 a'u cymharu efo poblogaeth plant yn gyffredinol, fodd bynnag, mae oedi wedi bod yn sgil capasiti a blaenoriaethau eraill. Bydd y Panel yn ail-afael yn hyn yn ystod y flwyddyn i ddod.

3.3.1.5. Er gwaethaf yr oedi wrth edrych ar y data fel Panel, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithio ar gwmpas yr asesiadau iechyd. Mae'r mesurau Gwella Ansawdd ar gyfer asesiadau iechyd wedi dangos gwelliant a chynnydd yn y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys mewn asesiadau iechyd. Mae adroddiad cliriach ar ddangosyddion fel iechyd deintyddol, golwg, mesurau taldra a phwysau a lles cymdeithasol/corfforol a meddyliol cyffredinol yn cael ei rannu, gyda chyfeirio amserol at wasanaethau arbenigol yn digwydd yn ôl yr angen.

3.3.1.6. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi ymgorffori gwybodaeth Pasbort Iechyd plant a phobl ifanc yn yr Asesiad Iechyd Adolygiadol diwethaf cyn i blentyn ddod yn Oedolyn. Mae'r adroddiadau hyn yn cael eu derbyn yn dda gan y bobl ifanc ac wedi rhoi cyfoeth o wybodaeth iddynt am eu hiechyd eu hunain a sut i gael mynediad at wasanaethau oedolion a throsglwyddo, os oes angen, yn y dyfodol.

3.3.2. **Cofrestru gyda Meddyg Teulu a Deintydd**

3.3.2.1. Mae nifer y plant mewn gofal, sydd wedi cofrestru gyda meddyg teulu, yn parhau i fod yn uchel ar **99%.** Mae **86%** wedi cofrestru gyda deintydd ac yn derbyn dilyniant a thriniaeth reolaidd. O'r 14% sy'n weddill mae'r mwyafrif yn fabanod o dan un oed, ac nid oes angen cofrestru deintyddol arnynt ar hyn o bryd.

3.3.2.2. Gweithia'r Bwrdd Iechyd yn agos gyda Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol i gynnal y Llwybr Gofal Deintyddol i Blant mewn Gofal – gan gynnal mynediad at wasanaethau deintyddol arbenigol tan yn 25 oed. Nid yw'r gwasanaeth yma ar gael i'r cyhoedd yn gyffredinol.

3.3.3. **Iechyd Meddwl**

3.3.3.1. Mae plant mewn gofal yn fwy tebygol o brofi problemau iechyd meddwl oherwydd eu hamgylchiadau a phrofiad o drawma. O'r rhai sydd mewn gofal yng Ngwynedd ar hyn o bryd, mae **18** ar agor i Wasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) gyda **13** arall yn aros i gael eu gweld. Yn ogystal, mae gan **107** o blant broblemau emosiynol neu ymddygiadol, ac maent yn derbyn gwasanaethau gan fudiad Gweithredu dros Blant, neu'r Gwasanaethau Ymgynghori CAMHS Plant mewn Gofal.

3.3.3.2. Cydweithia ymarferwyr CAMHS a'r Tîm Iechyd Plant mewn Gofal yn agos â gofalwyr i nodi a darparu cefnogaeth briodol. Nododd gwaith peilot blaenorol yr angen i gynnig 'Adroddiad Gofalwyr' fel llinell sylfaen pan fo problemau emosiynol nad ydynt yn cyrraedd trothwy arbenigol CAMHS ar gyfer ymyriadau. Y bwriad yw nodi problemau'n gynharach, yn seiliedig ar adroddiadau gan ofalwyr, a chynnig ymyrraeth amserol pan fo angen, gyda mwy o apwyntiadau'n cael eu cynnig gan wasanaeth Ymgynghori Plant mewn Gofal CAMHS ar gyfer cyngor, cefnogaeth a chyfeirio.

3.3.3.3. Mae cydweithio agos parhaus rhwng tîm 16+ yr Awdurdod Lleol a'r tîm iechyd plant sy'n derbyn gofal, yn enwedig yn ystod y cyfnod pontio i wasanaethau iechyd oedolion.

3.3.4. **Gwasanaeth Niwroddatblygol**

3.3.4.1. Ar hyn o bryd mae 34 o Blant sy'n Derbyn Gofal yn defnyddio Gwasanaethau Niwroddatblygiadol.

3.3.4.2. Yn ystod 2023/2024, dechreuwyd trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru i wella hygyrchedd at Wasanaethau Niwroddatblygiadol, gyda datblygiadau wedi'u cynllunio yng Ngogledd Cymru ar gyfer dull systemau cyfan sy'n cyd-fynd â Fframwaith Nyth / Nest a'r fenter 'Y Drws Cywir' i wella taith y plentyn a'r teulu a mynediad at wasanaethau, cefnogaeth a chyngor. Mae'r gwaith hwn yn cael ei arwain gan y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Plant, ac mae'r Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd yn cydweithio i ddatblygu a gweithredu gwasanaeth yn seiliedig ar yr angen.

3.3.4.3. Yn ogystal, darpara Tîm Awtistiaeth Gwynedd wybodaeth, cyngor a chymorth (IAA) i helpu unigolion awtistig a’u teuluoedd i wneud dewisiadau gwybodus a chael mynediad at wasanaethau priodol.

3.3.5. **Hyfforddiant ag Adborth**

3.3.5.1. Nod y Bwrdd Iechyd yw sicrhau bod yr holl Nyrsys Plant sy'n Derbyn Gofal yn “drawma wybodus” drwy'r hyfforddiant Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma, er mwyn cefnogi a chynnal y gwaith rhagorol o gefnogi teuluoedd, plant a phobl ifanc (gweler 3.5.1 am ragor o wybodaeth am y dull “trawma wybodus”).

3.3.5.2. Mae Nyrsys Plant mewn Gofal yn parhau i ddarparu hyfforddiant i nyrsys ysgol ac ymwelwyr iechyd sydd newydd gymhwyso. Darparwyd hyfforddiant hefyd i wasanaethau ysbytai acíwt i egluro'r camau i'w cymryd pan fydd plentyn mewn gofal yn cael ei dderbyn i'r ysbyty. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio'n agos gyda Chyngor Gwynedd a

darparu sesiynau gwybodaeth i weithwyr cymdeithasol a gofalwyr maeth i godi ymwybyddiaeth o'i rôl. Mae'r tîm wedi mynychu digwyddiadau gwybodaeth iechyd ledled yr ardal. Cafodd y digwyddiadau bresenoldeb da ac derbyniwyd adborth gadarnhaol iawn gan ofalwyr maeth.

3.3.5.3. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi bod yn rhan annatod o ddatblygu holiaduron adborth electronig i sicrhau bod lleisiau Plant sy'n Derbyn Gofal a'u gofalwyr yn cael eu clywed. Mae ganddynt gyfle i gwblhau'r holiaduron yn dilyn pob asesiad iechyd gyda'r codau QR yn cael eu rhannu'n eang. Hyd yn hyn mae'r canlyniadau wedi bod yn gadarnhaol iawn, gyda sylwadau gan blant, pobl ifanc a'u gofalwyr. Bydd rhagor o fanylion yn cael eu rhannu wrth i'r gwasanaeth derbyn adborth defnyddwyr aeddfedu.

3.4. Addysg o safon uchel

3.4.1. Gan fod y cyfnod peilot Cenedlaethol wedi dod i ben mae rôl y Pennaeth Rhithiol Plant Mewn Gofal yn wedi ei chynnwys yng nghyfrifoldebau y Gwasanaeth Diolgeu a Llesiant yr Adran Addysg. Mae’r Arweinydd Diogelu a Llesiant, yng nghyd â’r Cydlynydd Plant Mewn Gofal, yn sicrhau'r ddarpariaeth gorau ar gyfer y plant mewn gofal, gan edrych ar ddeilliannau o gychwyn eu cyfnod yn yr ysgol i ôl-16.

3.4.2. Yn ystod y flwyddyn mae Pob Cynllun Addysg Personol wedi cael ei werthuso gan ddefnyddio Awdit pwrpasol. Mae hyfforddiant ac arweiniad yn cael ei ddarparu i ysgolion sydd angen cefnogaeth bellach i sicrhau fod Targedau a chynnwys y cynlluniau yn rhai safonol ac yn adlewyrchu llais y disgybl.

3.4.3. Mae trefniadau mewn lle i dderbyn gwybodaeth rheolaidd am gynnydd a chyrhaeddiad Plant Mewn Gofal drwy system ar-lein. Mae’r ysgolion yn uwch-lwytho adroddiadau a chynlluniau i'r system fel bod modd i pob asiantaeth sydd yn cefnogi gael mynediad. Mae canlyniadau perfformiad diwedd Cyfnod Allweddol 4 (disgyblion blwyddyn 10 a 11) yn cael eu dadansoddi yn erbyn targedau unigol y disgyblion yn flynyddol, mae hyn yn ein galluogi i werthuso perfformiad unigolion ac adnabod arferion da i'w rhannu

3.4.4. Mae’r grant Plant Mewn Gofal yn rhan o’r Grant Datblygu a Dysgu Blynyddol gan Llywodraeth Cymru. Llwyddwyd i ddosrannu y grant yn ei gyfanrwydd eleni. Mae gwelliannau pellach wedi eu gweithredu i'r broses o ymgeisio, gwerthuso a darparu grantiau gyda phob disgybl sy’n blentyn mewn gofal yn gallu gwneud cais am hyd at £700 ar gyfer cefnogi eu llesiant a/neu datblygiad addysgol.

3.4.5. Cyflwynwyd cyfres arholiadau llawn ar gyfer cymwysterau TGAU yn Haf 2024. Roedd y canlyniadau ar gyfer Plant Mewn Gofal yn dangos bod:

- **19** o ddisgyblion Gwynedd yn blant mewn gofal yn eu blwyddyn olaf o addysg statudol (blwyddyn 11) ac yn ddisgyblion oedd wedi bod mewn gofal ers dros 12 mis**.**
- Pob disgybl wedi derbyn cyfle i sefyll amrywiaeth eang o arholiadau allanol megis TGAU, BTEC, Lefel mynediad a Bagloriaeth Cymru yn unol â'i diddordeb a'u gallu.
- Y mwyafrif wedi llwyddo i symud i gyrsiau coleg addas neu ymlaen i Flwyddyn 12 yn yr ysgolion.
- Y canlyniadau'n amrywio o ddisgybl i ddisgybl, gan adlewyrchu galluoedd unigryw pob dysgwr. Er bod un plentyn wedi cyflawni canlyniadau rhagorol gyda 10 A*, mae'n bwysig cydnabod y dylid gwerthuso llwyddiant yn seiliedig ar amgylchiadau a chyflawniadau unigol.

3.5. <u>Materion eraill y Panel Rhiantu Corfforaethol</u>

3.5.1. **Cyngor Trawma Wybodus**

3.5.1.1. Yn mis Medi 2025 cafodd y Panel gyflwyniad ar ddod yn "Gyngor Trawma Ymwybodol" gan edrych ar beth fyddai angen ei wneud fel ein bod yn ymwybodol o'r effaith y gall trawma gael ar bobl. Byddai hyn yn cynnwys adeiladu ymwybyddiaeth, gan sicrhau bod y gweithlu yn deall sut i gydnabod a mynd i'r afael â drawma mewn ffordd cefnogol.

3.5.1.2. Tra bod dod ymwybyddiaeth o drawma yn bwysig i holl drigolion sy'n derbyn gwasanaeth gan y Cyngor, mae'r risg o drawma ymysg y carfan o blant mewn gofal yn uwch, sy'n ei gwneud yn allweddol i sicrhau bod ein dulliau a'n polisïau yn adlewyrchu'r realiti hwn ac yn darparu'r gefnogaeth fwyaf effeithiol a chydlynol iddynt.

3.5.1.3. Mae hyfforddiant "Trawma Ymwybodol" eisoes yn cael ei ddarparu mewn ysgolion, gyda dros 1000 o staff ysgolion wedi mynychu hyfforddiant sylfaenol. Yn ogystal mae bron i hanner ysgolion Gwynedd wedi hyfforddi 1 neu fwy o aelodau o staff i *ddiploma lefel 5 mewn ysgolion a chymunedau sy'n wybodus am drawma ac iechyd meddwl,* sy'n golygu cwrs hyfforddiant dros gyfnod o 6 mis.

3.5.1.4. Yn ystod y flwyddyn mae aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn hefyd wedi bod yn ymgymryd â hyfforddiant "Trawma Wybodus". Yn y misoedd i ddod, bydd y Cyngor yn ystyried ehangu'r hyfforddiant i gynnwys adrannau eraill o staff sydd mewn cyswllt uniongyrchol â'r cyhoedd, gan gynnwys timau Gwasanaethau Cymdeithasol, timau Tai, swyddogion cyswllt cwsmeriaid y ganolfan gyswllt, a'r Siopau Gwynedd.

3.5.1.5. Mae dod yn Gyngor sy’n ymwybodol o drawma yn gofyn am ymrwymiad sylweddol o ran amser ac adnoddau. Bydd angen ystyriaeth fanylach o’r cost ariannol a’r amser sydd ei angen i gwblhau’r achrediad i ddod yn “Gyngor Trawma Ymwybodol”.

3.5.2. **Siarter Rhianta Llywodraeth Cymru**

3.5.2.1. Mae Siarter Rhianta Corfforaethol Llywodraeth Cymru yn addewid i gefnogi a hyrwyddo rôl rhianta corfforaethol ymysg gweithwyr y sector cyhoeddus. Bwriedir gyflwyno’r Siarter yn ffurfiol i’r Cabinet yn mis Ebrill 2025.

3.5.2.2. Er mwyn cryfhau’r ymrwymiad i roi lle canolog i lais y plentyn a’r rhai sydd wedi profi gofal, ystyrir gwahodd rhiant maeth neu unigolyn â phrofiad uniongyrchol i ymuno â’r Panel Rhiantu Corfforaethol. Credir yn gryf fod profiadau byw yn hanfodol wrth lunio polisïau a phenderfyniadau strategol a chreu gwasanaethau sy’n wirioneddol ymatebol ac yn sensitif i anghenion y rhai sydd wedi profi gofal.

## 4. Blaenoriaethau ar gyfer 2025/26

4.1. Yn ystod 2025/26 bwriedir:

- Craffu hyd a chwmpas y cyfnod aros am asesiadau iechyd, gan edrych ar y prif resymau neu rwystrau dros unrhyw oedi;
- Cynnal hyfforddiant bellach “Trawma Ymwybodol” i staff y Cyngor ac edrych ar y camau fydd angen i ddod yn Gyngor “Trawma Wybodus”.
- Gwahodd rhiant maeth neu unigolyn â phrofiad uniongyrchol i ymuno â’r Panel Rhiantu Corfforaethol.
- Hyrwyddo’r pecyn o fuddiannau i ofalwyr maeth Gwynedd ymhellach er mwyn denu rhagor o ofalwyr.